## DISGRIFIAD SWYDD

**Teitl y Swydd:** **Tiwtor Cyswllt**

**Ysgol:** **Ysgol Dechnolegau Caerdydd**

**Lleoliad:** **Llandaf**

**Cyflog:** **£44.74 y sesiwn (yn ogystal â 18% tâl gwyliau)**

**Daliadaeth:** **Achlysurol (yn ôl yr angen)**

### Disgrifiad o'r Rôl

Mae Ysgol Dechnolegau Caerdydd yn ehangu ei phortffolio ar hyn o bryd ac yn ceisio cefnogaeth ar gyfer cyflwyno gweithgareddau addysgu ar raglenni sefydledig.

Mae angen cymorth mewn meysydd pwnc gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gyfrifiadureg, seiberddiogelwch a rhwydweithiau, gwyddor data a deallusrwydd artiffisial, peirianneg drydanol ac electroneg, roboteg a systemau ymreolaethol, peirianneg meddalwedd. Bydd pob pwnc yn ymdrin â deunydd sy'n amrywio o lefel 3 i lefel 7.

Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus gefnogi addysgu yn ôl yr angen ac mewn modd sy'n gwneud y defnydd cyffredinol gorau o arbenigedd a galluoedd cyffredinol yr Ysgol.

Sylwch fod y ffi sesiwn yn cynnwys dyletswyddau addysgu a dyletswyddau cysylltiedig, h.y. yr awr gyflwyno ynghyd ag awr ar gyfer y dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r awr honno o gyflwyno gan gynnwys paratoi ac asesu.

### Prif feysydd cyfrifoldeb

1. Datblygu a chymhwyso technegau a deunydd addysgu priodol sydd o bosib yn creu diddordeb, dealltwriaeth a brwdfrydedd ymhlith myfyrwyr.

2. Cael a bod yn gyfarwydd â dogfennau cwrs perthnasol sy'n rhoi gwybodaeth yn ymwneud â nodau a gweithrediad y cwrs, gan gynnwys y maes llafur, dulliau asesu, y dulliau addysgu a ffefrir, gwybodaeth sydd ei hangen ar fyfyrwyr, dyddiadau ac amseroedd y cwrs, ac ati.

3. Cysylltu ag aelodau o dîm y rhaglen, fel sy'n briodol, er mwyn deall gofynion,

cydlynu cynlluniau a chamau gweinyddol ac i drafod newidiadau.

4. Paratoi deunydd cwrs effeithiol a fydd yn cyflawni nodau'r cwrs, gan gynnwys gwella'r profiad dysgu trwy ddull sy'n canolbwyntio ar y myfyrwyr.

5. Mynychu a chyflwyno sesiynau fel y cytunwyd, darlithio, arwain trafodaethau, ac fel arall darparu arweiniad a chyngor a hyrwyddo dysgu, yn ôl yr angen.

6. Paratoi a marcio, yn ôl yr angen, unrhyw waith ysgrifenedig, gwaith stiwdio, gwaith dosbarth a phapurau arholiad cysylltiedig, o fewn y gweithdrefnau asesu priodol.

7. Rhoi adborth adeiladol ac amserol i fyfyrwyr ar eu cynnydd.

8. Cadw'r fath gofnodion o asesu a phresenoldeb ag sydd eu hangen ar y Brifysgol.

9. Cadw at amseroedd agor a chau dosbarthiadau yn llym.

10. Sicrhau bod Cyfarwyddwr/Arweinydd y Rhaglen a'r dosbarth yn cael gwybod am eich absenoldeb, lle nad oes modd osgoi hynny, mor bell o flaen llaw â phosibl.

11. Darparu, lle bo hynny'n briodol, cynllun cwrs/gwaith, set o amcanion a rhestrau darllen i fyfyrwyr.

12. Mynychu cyfarfodydd, sesiynau sefydlu a datblygu yn ôl yr angen.

***Hysbysiad Safonol***

**Darperir y canllawiau hyn i'ch helpu wrth ichi gyflawni eich contract. Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig; felly, efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae tasgau technegol cysylltiedig eraill yn debygol o gael eu cyflawni yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell.**

**Derbynnir y bydd gan staff unigol sylfaen sgiliau a gwybodaeth arbenigol mewn perthynas â'r rôl y cawsant eu penodi iddi. Yn ogystal â hyn, mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn disgwyl y bydd yr holl staff yn ymddwyn mewn modd proffesiynol a chwrtais bob amser ac yn rhoi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.**

## MANYLEB Y PERSON

Swydd: Tiwtor Cyswllt

Uned/Ysgol: Ysgol Dechnolegau Caerdydd

*Allwedd
Ff - Ffurflen gais
C - Cyfweliad
Cyfl - Cyflwyniad

| FFACTORAU | MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL | ASESIR DRWY | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ff* | C* | Cyfl* |
| **Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)** | Gradd anrhydedd dda a / neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol. | √ | | |
| | Y gallu i gyflawni Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch. | √ | | |
| **Addysg a Chymwysterau (Dymunol)** | Gradd Meistr dda a / neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol. | √ | | |
| | Doethuriaeth neu brofiad ymchwil cyfatebol. | √ | | |
| | Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch. | √ | | |
| | Aelodaeth o gorff proffesiynol. | √ | | |
| **Gwybodaeth (Hanfodol)** | Lefel dda o wybodaeth sy'n berthnasol i'r pwnc a'r maes proffesiynol. | √ | √ | |
| | Tystiolaeth o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). | √ | | |
| | Dealltwriaeth gadarn o addysgeg | | √ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Galluoedd yn ymwneud â'r rôl (Hanfodol)** | Y gallu i ddylunio deunydd addysgu a dysgu.<br><br>Y gallu i ddefnyddio dulliau asesu priodol.<br><br>Y gallu i gyflawni dyletswyddau gweinyddol mewn modd cywir ac amserol.<br><br>Y gallu i gynllunio llwythi gwaith.<br><br>Y gallu i nodi meysydd i'w gwella a defnyddio menter a sgiliau datrys problemau i wella perfformiad. | <br><br><br><br><br><br>√ | √<br><br>√<br><br>√<br><br><br><br>√ | |
| **Sgiliau a phriodoleddau personol (Hanfodol)** | Y gallu i gyfathrebu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amryw o ffyrdd - cyflwyniadau, adroddiadau, deunyddiau dysgu.<br><br>Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol. | √<br><br><br><br>√ | <br><br><br><br>√ | |
| **Profiad â thâl / heb dâl (Dymunol)** | Profiad o addysgu. | √ | | |
| **Gofynion Eraill (Hanfodol)** | N/A | | | |
| **Gofynion Eraill Sgiliau Iaith Cymraeg**<br><br>**Gwrando (Dymunol)** | Gwrando<br>A1 - Dechreuwr<br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | √ | | |
| **Sgiliau Iaith Cymraeg**<br><br>**Darllen (Dymunol)** | Darllen<br>A1 - Dechreuwr<br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | √ | | |
| **Sgiliau Iaith Cymraeg**<br><br>**Siarad**<br><br>**(Dymunol)** | Siarad<br>A1 - Dechreuwr<br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | √ | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau Iaith Cymraeg**<br><br>**Ysgrifennu (Dymunol)** | Ysgrifennu<br>A1 - Dechreuwr<br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | √ | | |